# Minutes

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

## Cyngor

Date: Dydd Mawrth, 29 Mehefin 2021

Time: 5.00 pm

Present: Councillors J Cleverly, P Cockeram, D Davies, M Al-Nuaimi, M Evans, C Ferris, D Fouweather, G Giles, J Guy, D Harvey, I Hayat, Councillor R Jeavons, M Kellaway, M Linton, D Mayer, R Mogford, J Mudd, M Rahman, J Richards, M Spencer, T Suller, H Thomas, C Townsend, Councillor R Truman, T Watkins, R White, K Whitehead, D Wilcox, D Williams, G Berry, J Clarke, V Dudley, T Holyoake, P Hourahine, J Hughes, J Jordan, L Lacey, S Marshall, W Routley, H Townsend, J Watkins and A Morris

Apologies: Councillors C Evans, K Thomas and M Whitcutt

1. **Rhagofynion**

**1.i Ymddiheuriadau**
Y Cynghorwyr Whitcutt, K Thomas, Dudley a C Evans

**1.ii Datgan Buddiant**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

**1.iii Cyhoeddiadau'r Maer**
Cynhaliodd y Maer funud o dawelwch i'r cyn Gynghorydd Peter McKim. Peter oedd yr aelod ward Llafur dros Graig a bu'n gwasanaethu dros ddau dymor, gan adael y cyngor yn 2004.

Soniodd y Maer hefyd am ymddiswyddiad diweddar aelod arall o ward Graig, y Cynghorydd Cornelious ar sail afiechyd, a dymunodd y gorau iddi i'r dyfodol.

Gofynnodd y Maer i'r Arweinydd gyhoeddi bod y Cynghorydd Stephen Marshall wedi cael gwahoddiad i ddod y aelod o Urdd Sant Ioan, a oedd yn gyflawniad anhygoel. Aeth yr Arweinydd yn ei blaen i ddweud y byddai'r rhan fwyaf o'i chydweithwyr yn gwybod bod y Cynghorydd Marshall wedi bod yn wirfoddolwr gydag Ambiwlans Sant Ioan, a'i fod yn cefnogi'r rhaglen frechu. Roedd y wobr hon hefyd yn cydnabod ei ymroddiad i hyfforddi aelodau iau. Roedd y wobr hon wedi'i chymeradwyo gan y Frenhines, ac felly'n anrhydedd aruthrol i un o gynghorwyr Casnewydd.

2. **Cofnodion**

Cymeradwywyd bod Cofnodion 27 Ebrill a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ar 11 Mai 2021 yn gywir.

3. **Penodiadau**

Ystyried y penodiadau arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad

Cynigiodd y Cynghorydd Harvey y penodiadau a nodwyd yn yr adroddiad, fel yr oedd y Rheolwyr Busnes wedi cytuno arnynt, yn amodol ar y penodiadau ychwanegol a nodir isod.

**Penderfynwyd:** Cytuno ar y penodiadau canlynol.

**Penodiadau Cyrff Llywodraethol**

| Corff Llywodraethol | Nifer y Swyddi Gwag / Ailbenodiadau | Enwebiadau a Gafwyd |
|---|---|---|
| Ysgol Basaleg | 1 | Yvonne Forsey |
| Ysgol Gyfun Caerllion | 1 | Jason Hughes |
| Ysgol Gynradd Glan Wysg | 1 | Phillip Hourahine |
| Ysgol Gynradd Glan Wysg | 1 | Merille Hourahine |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas | 1 | Laura Lacey |
| Ysgol Gynradd Mount Pleasant | 1 | Yvonne Forsey |
| Ysgol Gynradd Sain Silian | 1 | Mark Spencer |
| Ysgol Sain Silian | 1 | Graham Berry |
| Ysgol Gynradd Maendy | 1 | Richard Morgan |
| Ysgol Gyfun Caerllion | 1 | Joan Watkins |
| Ysgol Gynradd Crindau | 1 | Herbie Thomas |
| Ysgol Gynradd Gaer | 1 | Stephen Marshall |
| Ysgol Gynradd Langstone | 1 | William Routley |
| Ysgol Uwchradd Llanwern | 1 | Deborah Harvey |
| Ysgol Gynradd Millbrook | 1 | Jason Jordan |
| Ysgol Uwchradd Casnewydd | 1 | Herbie Thomas |
| Ysgol Gynradd Ringland | 1 | Malcolm Linton |
| Ysgol Gynradd Maerun | 1 | John Tobutt |
| Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon | 1 | Hywel Jones |
| Ysgol Gynradd Pilgwenlli | 1 | Debbie Jenkins |

**Penodi i Gyrff Allanol**

Ymddiriedolaeth Charles Williams: Cynghorydd Gail Giles.

Yn ogystal â'r penodiadau uchod, hysbysodd y Cynghorydd Harvey y Cyngor fod angen cytuno ar oddefeb ar gyfer absenoldeb y Cynghorydd Val Dudley, oherwydd salwch ac yn unol ag adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Penderfynwyd:**
Cymeradwyo chwe mis o absenoldeb i'r Cynghorydd V Dudley.

4. **Materion yr Heddlu**

Rhoddodd yr Uwcharolygydd Mike Richards y newyddion diweddaraf am flaenoriaethau plismona lleol cyfredol, cyn gofyn am gwestiynau gan yr Aelodau.

Estynnodd yr Arweinydd groeso i'r Uwcharolygydd Richards i gyfarfod y Cyngor, a chyfeirio at y galw am ddarpariaeth gwasanaeth a chyllid ar gyfer strydoedd saffach. Myfyriodd hefyd ar weithio mewn partneriaeth a'r camau nesaf, gan gydnabod y pwysau amrywiol wrth symud ymlaen i adfer ar ôl covid. Fel ceidwaid ein cymunedau, dylem gyfeirio materion i wasanaethau preswyl nas darperir gan yr heddlu, ac mae gennym oll rôl i'w chwarae wrth gyfeirio preswylwyr i dderbyn y gwasanaethau cywir. Dywedodd yr Arweinydd hefyd fod recriwtio staff newydd i'r Heddlu yn newyddion gwych.

Gofynnodd yr Arweinydd hefyd am geisiadau teithio llesol, ac am y gallu i gyflwyno'r peilot strydoedd saffach â'r terfyn cyflymder 20mya. Roedd preswylwyr yn dal i fynegi pryder bod pobl yn torri'r terfyn cyflymder, a gofynnwyd i MR a allem gydweithio â Gan Bwyll i orfodi cyflymder, gan nad oeddem am golli momentwm.

Ategodd yr Uwcharolygydd sylwadau'r Arweinydd ynghylch yr angen i'r Heddlu a'r Cyngor weithio mewn partneriaeth.

<u>Cwestiynau gan y Cynghorwyr:</u>

Gofynnodd y Cynghorydd Holyoake pa strydoedd ym Mhilgwenlli fyddai'n elwa ar y fenter Strydoedd Saffach ac yn cael camerâu cyflymder wedi'u gosod arnynt. Dywedodd yr Uwcharolygydd Richards mai'r strydoedd hyn fyddai'r Heol Fasnachol a Rhodfa Francis. Byddai'r Arolygydd Blakemore hefyd yn cysylltu â'r Cynghorydd Holyoake i drafod hyn yn fanwl.

Diolchodd y Cynghorydd Jeavons i'r Uwcharolygydd am y diweddariad am Ymgyrch Snap yn Alway a Ringland.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Suller yr Uwcharolygydd am ddal delwyr cyffuriau a chodi pryder ynghylch 'rebels rasio' yng Nghoedcernyw, ar yr A48 ac Imperial Way, a gofynnodd a ellid gweithredu mesurau i arafu traffig. Byddai'r Uwcharolygydd Richards yn gofyn i'r arolygydd lleol gysylltu â'r Cynghorydd Suller i drafod hyn.

Diolchodd y Cynghorydd Harvey i'r Uwcharolygydd am gyflymder yr arestiadau a wnaed mewn perthynas â'r digwyddiad trasig yn Alway ddechrau mis Mehefin.

Diolchodd y Cynghorydd Rahman i'r Uwcharolygydd am y cymhorthfa stryd a oedd wedi'i drefnu ar gyfer ardal Heol Bryn Derwen, a chyfeirio at yr achosion diweddar pan welwyd cerbyd a oedd yn gysylltiedig â gweithgarwch delio cyffuriau flwyddyn neu ddwy yn ôl ar Heol Bryn Derwen. Roedd preswylwyr am gael sicrwydd, ar ôl iddynt ffonio 101 i riportio trosedd, y byddai'r Heddlu'n gweithredu ar yr wybodaeth a gafwyd, fel nad oeddent yn colli ffydd yn yr Heddlu. Sicrhaodd yr Uwcharolygydd Richards y Cynghorydd Rahman fod pob galwad 101 yn derbyn ymateb a byddai'n gofyn i'r Arolygydd Cawley gysylltu â'r Cynghorydd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Forsey at y cynnydd yn y niferoedd sy'n beicio a'r damweiniau cysylltiedig, gan gynnwys un farwolaeth yng Nghasnewydd, a gofynnodd a fyddai Ymgyrch Pasio'n Agos yn cael ei gweithredu yng Nghasnewydd. Dywedodd yr Uwcharolygydd Richards fod Heddlu Gwent yn bwriadu gweithredu hyn yng Nghasnewydd yn fuan ac y byddai'n rhoi'r amserlen i'r Cynghorydd.

Dywedodd y Cynghorydd Linton wrth yr Uwcharolygydd fod y llosgwr lleol wedi dychwelyd i Ringland, a chyfeirio at ddigwyddiad a gafwyd y noson gynt yn y Friendship Pub. Beth oedd yr heddlu'n ei wneud i ymchwilio i hyn? Dywedodd yr Uwcharolygydd Richards wrth y

cynghorydd ei fod yn cyfarfod â'r Arolygydd Cawley, ac y byddai'n gofyn iddo rannu ei gynlluniau â'r Cynghorydd Linton.

Dywedodd y Cynghorydd Hayat ei bod hi'n newyddion da bod camerâu TCC yn cael eu gosod yn ardal Pilgwenlli, ac roedd yn edrych ymlaen at gael cyfarfod â'r Arolygydd Blakemore a'i gyd-aelod ward, y Cynghorydd Holyoake yn y dyfodol agos.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Spencer at amryw o ddamweiniau ar hyd Heol Cas Gwent tua 18 mis i 2 flynedd yn ôl oherwydd ceir a oedd yn goryrru. Roedd y preswylwyr yn disgwyl am adborth ynghylch hyn, a gofynnodd a ellid mynd ar drywydd y mater ar eu rhan. Byddai'r Uwcharolygydd Richards yn cysylltu â'r Arolygydd Cawley a'r cynghorydd i ddarparu'r wybodaeth hon.

Roedd y Cynghorydd Fouweather yn croesawu'r cyllid Strydoedd Saffach ar gyfer Pilgwenlli, ond dywedwyd bod angen cyllid ar rannau eraill o'r ddinas, ac y byddai'r fenter yn ei gwneud hi'n anodd i droseddwyr symud o amgylch y lle ym Mhilgwenlli, a allai olygu eu bod yn symud i rannau eraill o Gasnewydd, gan ledu troseddau ymhellach. Roedd y Cynghorydd Fouweather felly eisiau gwybod a fyddai cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer rhannau eraill o Gasnewydd. Dywedodd yr Uwcharolygydd Richards y byddai cyllid ar gael ac, yn anffodus, bu'r cais ar gyfer Stow Hill y llynedd yn aflwyddiannus. Roedd y bidiau hyn yn cael eu trefnu gan y Swyddfa Gartref ac roedd yn rhaid bodloni'r meini prawf er mwyn derbyn cyllid, felly roedd Pilgwenlli yn bodloni'r meini prawf llym ar gyfer Strydoedd Saffach. Roedd angen cyflwyno'r bid nesaf erbyn 15 Gorffennaf. Cais oedd hwnnw am gyllid trais yn erbyn menywod, ac roedd yn debygol o ganolbwyntio ar ganol y ddinas.

Dywedodd y Cynghorydd Routley fod traffig sy'n goryrru yn broblem yn Langstone, ar hyd yr A48, Rock and Fountain at Heol Coldra/Magwyr. Nid oedd unrhyw gamerâu goryrru ar y ffordd ac roedd preswylwyr wedi mynegi pryder. Yn ddiweddar roedd ceffylau wedi rhuthro ymaith mewn braw oherwydd goryrru, a gallai hynny fod wedi bod yn ddifrifol iawn. Roedd y Cynghorydd Routley felly'n gofyn am gael cyfarfod â'r Uwcharolygydd ynghyd â'r Cynghorydd Mogford, ei gyd-aelod ward, er mwyn ymchwilio i ddatrysiad i liniaru'r broblem goryrru. Cytunodd yr Uwcharolygydd Richards â hyn, a byddai'n hapus i drefnu rhywbeth yn y dyfodol agos.

Diolchodd y Cynghorydd Al-Nuaimi i'r Uwcharolygydd am eu cyfarfod diweddar ynghylch pwerau stopio a chwilio, a wnaeth dawelu pryderon y Cynghorydd Al-Nuaimi. Soniodd y Cynghorydd Al-Nuaimi hefyd y byddai'n croesawu unrhyw wybodaeth bellach am unrhyw gynnydd. Mynegodd y Cynghorydd Al-Nuaimi hefyd ei ddiolch i'r Arolygydd Davies yn dilyn yr ymdriniaeth â'r problemau diweddar oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol ger Parc Belle Vue.

5. **Rhybudd o Gynnig: Amrywiaeth mewn Democratiaeth**

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r cynnig a ganlyn, yr oedd y rhybudd angenrheidiol wedi'i roi amdano. Gwnaed y cynnig gan yr Arweinydd, ac fe'i heiliwyd gan y Farwnes Wilcox.

**Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cydnabod bod llawer o waith wedi'i wneud yn ystod y degawd diwethaf yng Nghymru i fesur a gwella amrywiaeth cynghorau. Mae mwy o waith ar y gweill i baratoi am etholiadau 2022. Ceir ymgyrch gyfathrebu genedlaethol i annog pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i bleidleisio, i ymgysylltu â democratiaeth leol a sefyll am swydd. Mae rhaglenni mentora newydd yn cael eu darparu gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru a Thîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru. Bydd Stonewall Cymru ac Anabledd Cymru hefyd yn cynnig rhaglenni mentora cyn bo hir. Mae Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd yn gweithio gyda Chynghorau, ysgolion a chynghorau ieuenctid ac yn datblygu adnoddau i annog pobl ifanc 16 a 17 oed i gymryd rhan a phleidleisio. Mae**

**gan CLILC wefan Bydd yn Gynghorydd newydd ac mae'n rhan o ymgyrch Moesgarwch mewn Bywyd Cyhoeddus a gynhelir ar draws y DU. Mae'n cydweithio â Chynghorau i wella ystod y cymorth a'r cyfleoedd datblygu a ddarperir i aelodau.**

**Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymrwymo i fod yn Gyngor Amrywiol.**

**Rydym yn cytuno i:**
- **Wneud ymrwymiad cyhoeddus clir i wella amrywiaeth mewn democratiaeth**
- **Arddangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb, gan hyrwyddo'r safonau uchaf o ran ymddygiad ac ymarweddiad**[DVX31]
- **Parhau i fwrw ymlaen ag argymhellion gweithgor Amrywiaeth mewn Democratiaeth CLILC**

Sylwadau gan Gynghorwyr:

Wrth eilio'r cynnig, dywedodd y Farwnes Wilcox fod Cyngor CLILC, ar 5 Mawrth eleni, ar noswyl Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, wedi ategu cyfres o argymhellion pwysig gan weithgor trawsbleidiol, a oedd yn cynnwys y defnydd o gwotâu gwirfoddol, targedau lleol, a datganiadau gan gynghorau i ddod yn 'Gynghorau Amrywiol'. Roedd hyn yn deillio o sefydlu gweithgor trawsbleidiol ar grwpiau tangynrychioledig o dan arweinyddiaeth flaenorol y Farwnes Wilcox yn CLILC, ac roedd y Farwnes Wilcox yn falch o gadeirio'r gweithgor hwnnw hyd fis Tachwedd pan gyflwynwyd ei gynigion cychwynnol gerbron Cyngor CLILC.

Cytunodd CLILC i gymryd camau i hybu cydraddoldeb rhywiol ac amrywiaeth mewn Cynghorau cyn etholiadau 2022. Roedd hyn i gydnabod y diffyg amrywiaeth yng Nghynghorau Cymru. Cylch gwaith y grŵp oedd ymchwilio i dangynrychiolaeth ehangach mewn democratiaeth a sicrhau newid drwy gyfres o gamau gweithredu ac addewidion.

Roedd cymunedau lleol yn amrywiol o ran eu profiad bywyd, eu blaenoriaethau a'u hanghenion. Dylai cynghorwyr o bob plaid adlewyrchu'r amrywiaeth hwn yn y sgiliau a'r profiad y maent yn eu cynnig i'r cyngor.

Nid mater o gydraddoldeb yn unig oedd hwn, er mor bwysig oedd hynny - ond bod angen i siambrau cyngor gael eu llenwi â phobl ag ystod amrywiol o brofiadau bywyd a dyheadau amrywiol; bydd gwell amrywiaeth yn arwain at well penderfyniadau.

Chwaraeodd cynghorau a chynghorwyr ran allweddol, ganolog ac amlwg yn ystod pandemig COVID 19. Dangosodd cynghorau eu bod mewn sefyllfa unigryw wrth galon eu cymunedau a'r gwasanaethau yr oeddent yn eu darparu i'r cyhoedd, ac yn ddieithriad bu cynghorau a chynghorwyr yn fan cyswllt cyntaf i'r rhai mwyaf agored i niwed a'r rhai a oedd angen cymorth neu sicrwydd.

O fwrw ymlaen â syniadau'r gweithgor, roedd CLILC, mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru, felly wedi datblygu cynllun gweithredu a oedd yn trafod ystod o syniadau, gan gynnwys ymwybyddiaeth o rôl Cynghorwyr yn eu cymunedau, a gwerth y rôl honno, cyflwyno mwy o fesurau i ddelio ag achosion o gam-drin Cynghorwyr, sydd wedi tyfu'n fwyfwy cyflym yn y blynyddoedd diwethaf gyda thwf cyfryngau gwrthgymdeithasol, bwrw ymlaen i ddarparu mwy o hyfforddiant a chyfleoedd datblygu i Gynghorwyr, gan gynnwys cynlluniau mentora, cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer hyblygrwydd ac i rannu swyddi ar bob lefel, a chefnogi unigolion â nodweddion gwarchodedig.

I gloi, roedd y Farwnes Wilcox wrth ei bodd yn cael eilio cynnig yr Arweinydd, fod y Cyngor yn ymrwymo i fod yn Gyngor Amrywiol, ac y cytunwyd gwneud ymrwymiad cyhoeddus clir i wella amrywiaeth mewn democratiaeth, arddangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb, hyrwyddo'r safonau uchaf o ran ymddygiad ac ymarweddiad, a sefydlu Cynllun Gweithredu Cyngor Amrywiol lleol cyn etholiadau lleol 2022.

Ar ran ei grŵp, dywedodd y Cynghorydd M Evans ei fod yn croesawu'r cynnig a'r argymhellion, ac ar ôl yr etholiadau diwethaf, fod mwy nag erioed o bobl wedi cael eu dewis o gefndiroedd lleiafrifol ethnig, a'u bod yn awyddus i annog mwy o fenywod i sefyll yn yr etholiadau nesaf. Nid oeddent yn awyddus i roi hawliau pleidleisio i bobl ifanc 16-17 oed yn yr etholiadau diweddar, ond roeddent yn cefnogi amrywiaeth mewn democratiaeth, a byddent yn gwneud popeth o fewn eu gallu i'w cynnwys, er na allent sefyll mewn etholiadau. Fodd bynnag, yr etholaeth a fyddai'n penderfynu pwy i'w pleidleisio i mewn, nid y grwpiau gwleidyddol. Roedd diwylliant agored, safonau uchel ac ymddygiad da yn rhywbeth i'w groesawu. Fodd bynnag, roedd eu hymgeiswyr hwy'n cael eu dewis ar sail eu teilyngdod yn bennaf, ac roedd yn rhaid i bwy bynnag a fyddai'n sefyll gynrychioli eu cymunedau hyd eithaf eu gallu, a'r etholaeth a oedd i benderfynu yn y pen draw. Ni fyddent, fodd bynnag, yn rhoi siec wag i CLILC mewn perthynas â'u cynlluniau ar gyfer amrywiaeth a democratiaeth, gan nad oeddent yn gwybod beth fyddai'n cael ei gynllunio yn y dyfodol agos. Er eu bod yn parchu safbwyntiau'r Farwnes Wilcox ynghylch cydraddoldeb, nid oeddent o blaid rhestrau byr i fenywod yn unig. Oherwydd hynny, dywedodd y Cynghorydd M Evans y byddai ei grŵp yn ymatal rhag pleidleisio.

Talodd yr Arweinydd deyrnged i'r Farwnes Wilcox am ei gwaith a'i rôl fel arweinydd gyda CLILC. Soniodd yr Arweinydd hefyd fod gan CLILC gefnogaeth drawsbleidiol lawn i'r gwaith hwn a bod Cyngor Sir Fynwy eisoes wedi mynd i'r afael â hyn ac wedi ei gymeradwyo yn y cyngor llawn yn ddiweddar. Roedd hwn yn gynnig pwysig ac roedd yn ddemocrataidd bod pob cynghorydd yn cael dweud ei ddweud ar y mater. Pwysleisiodd yr Arweinydd fod Casnewydd wrth galon democratiaeth ac bod hyn yn gam pellach i symud democratiaeth yn ei blaen.

**Cytunwyd:**
Cymeradwyo'r Cynnig Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

---

check!!!

6. **Hysbysiad o Gynnig: Rhyddid Casnewydd - Y Lleng Brydeinig Frenhinol**

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r cynnig a ganlyn, yr oedd y rhybudd angenrheidiol wedi'i roi amdano. Gwnaed y cynnig gan yr Arweinydd, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Spencer.

**Bod Cyngor Dinas Casnewydd yn penderfynu penodi'r Lleng Brydeinig Frenhinol fel Rhyddfreiniwr Anrhydeddus Dinas Casnewydd, i gydnabod ei Chanmlwyddiant ar 15 Mai 2021, ac i anrhydeddu gwaith elusennol y sefydliad sy'n cefnogi cyn-aelodau o'r lluoedd a'u teuluoedd.**

**Ffurfiwyd y Lleng Brydeinig Frenhinol ym mis Mai 1921 drwy uno pedair cymdeithas cyn-filwyr y Rhyfel Byd Cyntaf. Ei phwrpas oedd:**
- **rhoi cymorth i gyn-filwyr a'u teuluoedd sydd angen cymorth,**
- **ymgyrchu i wella amodau, a**
- **hyrwyddo Coffadwriaeth.**

Wrth wneud y cynnig, dywedodd yr Arweinydd, yn 1921, fod Sylfaenydd a Llywydd y Lleng Brydeinig, yr Iarll Haig, wedi cyhoeddi y byddai Diwrnod y Cadoediad ar 11 Tachwedd yn cael ei alw byth wedi hynny'n Ddiwrnod y Cofio, ac y byddai'n 'Ddiwrnod Pabi' i godi arian er budd cyn-filwyr.

Bu dros chwe miliwn o ddynion yn gwasanaethu ar y rheng flaen yn ystod y rhyfel, ac o'r rhai a ddaeth yn eu hôl, dioddefodd 1.75 miliwn ohonynt ryw fath o anabledd, ac roedd hanner y rheiny'n anabl yn barhaol. Roedd angen cofio hefyd yr effaith emosiynol ac ariannol hyn ar y rhai a gafodd eu gadael ar ôl - gwragedd a phlant, gweddwon a phlant amddifad, yn ogystal â'r rhieni a oedd wedi colli eu meibion.

Yn sgil y pryder hwn, sefydlwyd y Lleng, ac mae'r sefydliad wedi helpu cymuned y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd byth ers hynny. Roedd y Lleng yn rhoi cymorth i aelodau a oedd yn gwasanaethu yn y Llynges Frenhinol, y Fyddin Brydeinig, yr Awyrlu Brenhinol, cyn-filwyr a'u teuluoedd, drwy gydol eu hoes. Roedd amrywiaeth eang o weithgareddau'n cael eu cynnig, gan gynnwys cymorth ar gyfer argyfyngau a dyledion, cyflogaeth, gofal dementia, a chefnogi lleoedd drwy gynnal gorymdeithiau a gwasanaethau'r Cofio.

Yng Nghasnewydd roeddem yn ffodus o gael pedair cangen i'r Lleng Brydeinig Frenhinol - cangen Dynion Casnewydd, cangen Menywod Casnewydd, cangen Tŷ-du a changen Caerllion.

Roedd y gwahaniaeth yr oedd y Lleng Brydeinig Frenhinol yn ei wneud i fywydau pobl yn amhrisiadwy, wrth iddi nodi ei chanmlwyddiant ym mis Mai, ac roedd yr Arweinydd o'r farn ei bod hi'n bwysig i Gasnewydd roi cydnabyddiaeth ffurfiol o gyfraniad y sefydliad hwn i bobl Casnewydd Teimlwyd bod rhoi Rhyddfraint y Ddinas i'r sefydliad yn anrhydedd priodol, ar ran pobl Dinas Casnewydd ac aelodau etholedig y Cyngor hwn, ac roedd hi'n fraint i'r Arweinydd wneud cais ffurfiol i Gyngor Dinas Casnewydd roi Rhyddfraint y Ddinas i'r Lleng Brydeinig Frenhinol ym mlwyddyn ei chanmlwyddiant.

Pe bai'r cais hwn yn cael ei ganiatáu, gellid cynnal seremoni gyflwyno fwy ffurfiol yn ddiweddarach yn y flwyddyn, a gobeithiwyd y byddai'r digwyddiad hwnnw'n galluogi'r Cyngor i ddathlu gwaith y sefydliad anhygoel hwn yn llawn, a rhoi cydnabyddiaeth lawn o'r anrhydedd a roddwyd iddo.

Sylwadau gan Gynghorwyr:

Roedd y Cynghorydd M Evans yn croesawu'r cynnig ac yn ei gefnogi'n llwyr, er ei fod yn siomedig na ofynnwyd iddo am hyn ymlaen llaw.

Roedd y Cynghorydd Cleverly o blaid y cynnig, ac roedd aelod o'i theulu yn y Lluoedd Arfog.

Roedd y Cynghorydd Harvey o blaid y cynnig, ac roedd ei mab yn aelod o'r Llynges Frenhinol.

Roedd y Cynghorydd Truman o blaid y cynnig hwn.

Roedd y Cynghorydd Whitehead o blaid y cynnig hwn, ac roedd ganddo frodyr yn y Lluoedd Arfog.

Derbyniodd y Cynghorydd J Watkins gymorth gan y Llynges Brydeinig Frenhinol pan gollodd ei gŵr pan oedd yn gwasanaethu yn y Llynges Frenhinol. Roedd hi'n siomedig fodd bynnag eu bod wedi penderfynu symud o swyddfeydd lleol a chael eu canoli yn Llundain, ond roedd y Cynghorydd J Watkins o blaid y cynnig.

Roedd aelod o deulu'r Cynghorydd Hughes yn gweithio i'r Lluoedd Arfog, ac roedd yn cydnabod cangen Caerllion am ei gwaith caled.

Soniodd y Cynghorydd Spencer ei bod hi'n bleser o'r mwyaf cael eilio'r cynnig hwn i'r Lleng Brydeinig Frenhinol, a oedd wedi helpu cyn-filwyr ers blynyddoedd lawer, a chefnogi'r hyn yr oedd gweithwyr y lluoedd yn ei wneud. Fel cyn-filwr, roedd y Cynghorydd Spencer yn canmol cefnogaeth y Lleng Brydeinig Frenhinol a'r gwaith caled a wnaed yn y gorffennol a fyddai, gobeithio, yn parhau ymhell i'r dyfodol.

Roedd yr Arweinydd yn croesawu'r cyfraniadau cadarnhaol gan gydweithwyr, a oedd yn dangos y parch uchel a fodolai tuag at y Lleng Brydeinig Frenhinol, a'r gydnabyddiaeth o'r gwaith yr oedd yn ei wneud.

**Cytuno (yn unfryd)** i gymeradwyo'r cynnig.

7. **Adroddiad Strwythur Rheoli**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad i'r Cyngor, gan dynnu sylw at yr ymgynghoriad ag arweinwyr grwpiau gwleidyddol a chynrychiolwyr undebau, yn ogystal â'r gwaith agos a wnaed â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Byddai proses recriwtio fesul cam yn cael ei chynnal, ynghyd â phanel recriwtio wedi'i ffurfio o'r aelodau. Byddai hyn yn cael ei gynnal mewn modd agored a thryloyw. O ran y goblygiadau ariannol, byddai'r isafswm yn cael ei fuddsoddi yn unol â chyllideb refeniw'r cyngor.

Cynigiodd yr Arweinydd yr adroddiad, a eiliwyd gan y Cynghorydd M Evans.

Os oedd ganddynt unrhyw gwestiynau ynghylch yr adroddiad, gofynnodd y Maer i'r cynghorwyr ofyn y cwestiynau hynny i'r Prif Weithredwr.

Gofynnodd y Cynghorydd Cleverly i'r Prif Weithredwr a fyddai'n dal angen i'r staff ailymgeisio am eu swydd, neu a fyddent yn cael eu paru â swydd, ac yn ogystal â hynny, a fyddai unrhyw ddiswyddiadau? Dywedodd y Prif Weithredwr na fyddai hyn yn amharu ar unrhyw Bennaeth Gwasanaeth presennol, ac y byddent felly'n cael eu paru â rôl o fewn y strwythur arfaethedig, gyda mân newidiadau i'r meysydd gwasanaeth cysylltiedig ac, yn ystod y cam gweithredu cychwynnol, ni fyddai unrhyw staff yn cael eu diswyddo.

Gofynnodd y Cynghorydd T Watkins beth oedd yr amserlen ar gyfer sefydlu'r swyddi hyn. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r broses recriwtio yn dechrau ar unwaith, ac y rhagwelwyd y byddai'r swyddi yn eu lle o fewn y tri i bum mis nesaf.

Dywedodd y Cynghorydd Fouweather fod anawsterau wedi codi yn y gorffennol wrth recriwtio uwch swyddogion, a gofyn a oedd y cyflogau'n gystadleuol o fewn y farchnad. Cytunodd y Prif Weithredwr ei bod hi'n dda annog cystadleuaeth, a bod cyflogau'r cyfarwyddwyr yn gystadleuol. Roedd cyflogau'r Penaethiaid Gwasanaeth yn gymesur â chyflogau eraill o fewn Llywodraeth Leol.

Roedd yr Arweinydd yn falch o gefnogi adroddiad y Prif Weithredwr i weithredu diwygiadau i strwythur uwch reoli'r Cyngor, yr oedd angen mawr amdanynt.

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, bu'r Prif Weithredwr, yn ei rôl fel Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig, yn gweithio'n agos â CLILC i adolygu'r strwythur prif swyddogion ar lefel Penaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr.

Cafwyd gostyngiad o 39% i'r strwythur lefel uwch ers 2011, ond parhaodd agenda newid y Cyngor a'i ddisgwyliadau ar gyfer y Ddinas i dyfu dros yr un cyfnod - roedd yr adolygiad felly'n cefnogi'r angen i greu capasiti strategol er mwyn i'r Cyngor allu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd.

Yn ei hadroddiad, manylodd y Prif Weithredwr ar yr angen i gryfhau'r uwch dîm arwain i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i symud y Ddinas yn ei blaen, a chryfhau rôl y Cyngor hyd yr eithaf ar raddfa leol a chenedlaethol. Roeddem yn cymryd rhan mewn agendâu rhanbarthol a chenedlaethol uchelgeisiol fel Porth y Gorllewin a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Roedd disgwyliadau'r gymuned yn cynyddu a byddai'r cyngor yn ymdrin â sgil-effeithiau pandemig Covid-19 am flynyddoedd lawer i ddod - ac roedd angen arweinyddiaeth gadarn ar lefel uwch ar gyfer hyn.

Roedd y Prif Weithredwr yn cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Cyngor i geisio cymeradwyaeth am strwythur a fyddai'n addas i'r dyfodol - i alluogi uwch swyddogion i ganolbwyntio o'r newydd ar flaenoriaethau strategol y Cyngor, ac ar drawsnewid ein gwasanaethau mewn modd

thematig.  Cynigiodd yr Arweinydd felly y dylid mabwysiadu'r adroddiad, a gobeithiai y byddai ei gyd-aelodau'n gwneud hynny hefyd.

Ar ran y grŵp ceidwadol, roedd y Cynghorydd M Evans yn cydnabod nad oedd y strwythur uwch reoli yn addas i'r diben, ac felly'n croesawu ymdrechion y Cyngor i unioni hyn, a'r ffaith bod mwy o ogwydd fasnachol i'r newidiadau. Yn y pen draw, roedd yn rhaid i'r Cyngor wella gwasanaethau rheng flaen i breswylwyr.  Roedd pryderon ynghylch costau recriwtio yn amlwg wedi'u trafod, a byddai'r rhain yn cael eu monitro, felly roedd y Cynghorydd M Evans yn cefnogi'r adroddiad y llawn.

Diolchodd y Cynghorydd K Whitehead i'r Prif Weithredwr am ei gynnwys yn y broses ymgynghori, a dywedodd fod y Prif Weithredwr wedi ymdrin â hyn mewn modd deinamig ac agored. Roedd yn cefnogi'r adroddiad hwn yn llawn ac yn gobeithio y byddai'r berthynas hon yn cael ei chynnal wrth roi'r cynllun recriwtio arfaethedig ar waith.  O safbwynt ariannol, byddai'r gost yn creu budd i'r Cyngor yn y dyfodol, felly roedd yn cefnogi'r adroddiad yn llawn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hourahine at yr angen i feddwl yn strategol o fewn yr awdurdod, ac roedd felly'n cefnogi'r adroddiad yn llawn.

Diolchodd yr Arweinydd i'r cynghorwyr am eu sylwadau, a chanmol y Prif Weithredwr am ei hadroddiad a'i dull cynhwysol o lunio'r adroddiad a'r argymhellion, ac felly cynigiodd yr adroddiad.

**Cytunwyd:**
Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i strwythur yr uwch-arweinyddiaeth, ac yn awdurdodi'r Prif Weithredwr i fwrw ymlaen i weithredu'r strwythur newydd o fewn fframwaith recriwtio'r Cyngor ar gyfer Prif Swyddogion.

8. **Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Trwyddedu a Rheoleiddio yr adroddiad i'r Cyngor.

Pwrpas Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) oedd atal unigolion neu grwpiau rhag ymddwyn yn wrthgymdeithasol mewn mannau cyhoeddus. Gellid ei ddefnyddio i weithredu cyfyngiadau lle'r oedd ymddygiad yn cael effaith niweidiol ar ansawdd bywyd pobl yn yr ardal leol, neu'n debygol o wneud hynny; a lle'r oedd yr ymddygiad yn ddi-baid neu'n barhaus ei natur, neu'n debygol o fod felly.

Dim ond y Cyngor a allai lunio PSPO, ond gallai Heddlu Gwent a Swyddogion y Cyngor ei weithredu.

Y PSPO gerbron y Cyngor heddiw fyddai'r ail PSPO i gael ei weithredu yn Ward Pilgwenlli. Daeth y PSPO blaenorol i ben ym mis Gorffennaf 2020 ac roedd yn cynnwys tri chyfyngiad. Roedd y PSPO newydd hwn yn gweithredu nifer fwy o gyfyngiadau wedi'u targedu'n benodol i ymdrin ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn yr ardal ddiffiniedig.

Roedd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn digwydd ym Mhilgwenlli, a hynny'n amharu ar ei phreswylwyr. Roedd y PSPO blaenorol yn gyfyngedig o ran ei weithrediad a'r defnydd ohono. Drwy drefniadau i'r Cyngor a Heddlu Gwent gydweithio'n agos â'i gilydd, cynigiwyd y dylai'r Cyngor weithredu PSPO newydd i ddarparu pwerau gorfodi ychwanegol a pherthnasol i staff Heddlu Gwent a'r Cyngor er mwyn helpu i ymdrin â phroblemau yr oedd preswylwyr yn eu profi.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus am fis ym mis Mawrth 2021, ac ymatebodd dros 150 o unigolion a sefydliadau i'r ymgynghoriad hwnnw. Roedd bron bob un o'r ymatebion hyn gan

bobl a oedd yn byw neu'n gweithio ym Mhilgwenlli. Cafwyd cefnogaeth frwd iawn i'r cyfyngiadau yn y PSPO newydd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Bu'r Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu yn goruchwylio'r broses ddrafftio ac ymgynghori ar gyfer y PSPO newydd hwn, a hefyd yn adolygu canlyniadau'r ymgynghoriad. Yn ei gyfarfod ym mis Ebrill, argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Cyngor fabwysiadu'r PSPO.

Ar gais yr Heddlu, argymhellodd y Pwyllgor Rheoli Craffu y dylid dileu Gwaharddiad 8 o'r Gorchymyn drafft a oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r gwrthwynebiadau dilynol a gafwyd gan y gymuned leol ynghylch cael gwared â'r mesur hwn a'r gefnogaeth eang o du'r cyhoedd i gyfyngu ar "hel puteiniaid o gerbyd", argymhellwyd y dylid diwygio'r PSPO drafft yn Atodiad A yr adroddiad i gynnwys gwaharddiad ychwanegol rhif 8

***"Ni chaiff neb fynd i mewn i'r ardal gyfyngedig a cheisio prynu gwasanaethau rhyw gan berson arall"***

**Yn amodol ar y diwygiad hwn, cynigiodd yr Aelod Cabinet y dylai'r Cyngor gymeradwyo a mabwysiadu PSPO newydd Pilgwenlli yn ffurfiol, fel y nodir yn yr Adroddiad.**

Diolchodd y Cynghorydd I Hayat i'r Cyng. Truman, ac ystyriai ei bod hi'n hanfodol sefydlu hyn. Byddai'r PSPO hwn, gyda'r ychwanegiadau, o gymorth i'r heddlu. Roedd Pilgwenlli yn lle amlethnig ac amrywiol a oedd yn croesawu pobl i fuddsoddi yn y ward, felly roedd y Cynghorydd I Hayat yn llwyr gefnogi'r adroddiad.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu, dywedodd y Cynghorydd Lacey fod trafodaeth drawsbleidiol wedi'i chynnal a'r argymhellion wedi'u hystyried yn ofalus, ac felly roedd hi'n cefnogi'r diwygiad yn llwyr.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Holyoake at y tai diogel a gynigiwyd yn 2015 a wrthwynebwyd gan y preswylwyr a'r cynghorydd, ond a basiwyd p'run bynnag. Roedd y Cynghorydd Holyoake a'i chydweithwyr o fewn y ward wedi brwydro i unioni'r cam hwn. Roedd hyn wedi annog ymddygiad gwyrdroëdig a gwaith rhyw, yn enwedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf dros gyfnod y pandemig, a hefyd yn achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol. Pilgwenlli oedd y ward â'r gyfradd droseddu uchaf ond un yng Nghasnewydd. Cafwyd ymyrraeth gadarnhaol gan yr Heddlu gydag arestiadau lluosog, gan arwain at ddirwyon sylweddol ac euogfarnau troseddol. Byddai'r PSPO yn rhoi grym i'r heddlu a wardeiniaid weithredu'n briodol os gwelir hyn ar ein strydoedd. Byddai hyn yn rhoi'r hawl i breswylwyr deimlo'n rhydd ac wedi'u diogelu. Roedd y Cynghorydd Holyoake felly'n cefnogi'r PSPO yn llwyr.

Soniodd y Cynghorydd M Evans fod hyn yn effeithio ar breswylwyr a busnesau fel ei gilydd, ac na ddylai unrhyw fenyw deimlo'n anniogel, ac roedd yn croesawu gweithredu llymach. Roedd cardota ymosodol ar y stryd ar gynnydd, a dylai'r Cyngor wahardd hyn yn llwyr yng nghanol y ddinas ac ym Mhilgwenlli. Cefnogodd y Cynghorydd M Evans yr adroddiad.

Awgrymodd y Cynghorydd Whitehead ei bod hi'n bwysig gweld heddlu yn bresennol. Pryder arall oedd effaith grenâd PSPO. Roedd y Cynghorydd Whitehead yn cydymdeimlo â phreswylwyr Pilgwenlli, yr oedd rhai ohonynt wedi symud i ffwrdd o'r ardal.

Roedd y Cynghorydd Harvey yn cefnogi'r adroddiad yn llwyr, gan ddweud bod angen y PSPO hwn ar breswylwyr ac aelodau ward lleol.

Diolchodd yr Arweinydd i'r holl bartneriaid a'r rhanddeiliaid am eu cyfraniad at y PSPO, gan ddweud bod llawer o waith wedi'i gyflawni i'w wireddu. Roedd hi'n bwysig cydnabod pryder ynghylch dadleoli a phwysigrwydd gwaith partneriaeth. Roedd yr adroddiad hwn yn sicrhau

bod ystod o offer ar gael i ymdrin â'r heriau.  Ni ddylai pobl orfod goddef y math hwn o ymddygiad ar garreg eu drws.  Cyfeiriodd yr Arweinydd at negeseuon a gafwyd gan drigolion, a'r un anoddaf i'w darllen oedd neges o un o'r ysgolion uwchradd lle'r oedd disgybl yn hwyr yn cyrraedd yr ysgol dro ar ôl tro oherwydd y gweithgarwch nosol sy'n digwydd y tu allan i'w thŷ bob nos.  Dylai pob preswylydd deimlo'n ddiogel a dylai plant gysgu yn y nos i fynychu'r ysgol.

Diolchodd y Cynghorydd Truman i bawb a siaradodd o blaid yr adroddiad a chynnig yr adroddiad.

**Cytunwyd:**
Bod y Cyngor yn mabwysiadu ac yn gweithredu'r PSPO Pilgwenlli (2021-2024).

9. **Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor**

Rhannodd yr Arweinydd y cyhoeddiadau a ganlyn â'r Cyngor:

- **Cronfa Codi'r Gwastad**
  Yn gynharach y mis hwn, cefnogodd y Cabinet gynnig i wneud cais sylweddol i Gronfa Codi'r Gwastad y Llywodraeth, gan anelu i roi hwb pellach i waith i adfywio ein dinas.

  Proses ymgeisio gystadleuol ydoedd, ac roedd hyd at £20m o gyllid cyfalaf ar gael ar gyfer cynlluniau adfywio a buddsoddi diwylliannol. Nid oedd unrhyw sicrwydd y byddem yn llwyddiannus, ond byddai cais uchelgeisiol, am y swm llawn o £20 miliwn yn cael ei gyflwyno, a fyddai'n fodd i drawsnewid ymhellach ardal Porth y Gogledd yng nghanol y ddinas.

  Roedd nifer o gynlluniau trawsnewid eisoes ar y gweill neu yn yr arfaeth yn yr ardal hon, gan gynnwys adnewyddu Marchnad Dan Do ac Arcêd Marchnad Casnewydd, y cynnig i greu canolfan rhannu mannau gwaith a deor busnesau yn adeilad yr Orsaf Wybodaeth, a darparu pont droed newydd ar gyfer teithiau llesol rhwng Devon Place a Queensway.

  Byddai'r arian ychwanegol hwn yn cael ei ddefnyddio i wella parth y cyhoedd yn yr ardal hon, a'r gobaith oedd y byddai pobl, wrth gyrraedd Casnewydd, yn gweld golygfa a oedd yn adlewyrchu gwir ansawdd Casnewydd fel lle, a oedd yn cynrychioli ein huchelgeisiau ac a oedd yn gadarnhaol a chroesawgar i ymwelwyr a buddsoddwyr fel ei gilydd.

  Byddai ffocws ar seilwaith gwyrdd, teithio llesol, Cynnig Ehangach Caerdydd ac, wrth gwrs, ar adlewyrchu ethos y Siarter Creu Lleoedd.

  Byddai'r Arweinydd yn rhoi diweddariad rheolaidd ar y broses ymgeisio wrth iddi fynd rhagddi.

- **Diwrnod aer glân**
  Yn gynharach y mis hwn, nododd y Cyngor Ddiwrnod Aer Glân 2021 drwy gynnal digwyddiad ardderchog yn Felodrom Cenedlaethol Geraint Thomas Cymru

  Pwrpas y Diwrnod Aer Glân oedd tynnu sylw at lygredd aer, codi ymwybyddiaeth ynghylch ei effaith ar iechyd, ac archwilio rhai o'r pethau y gellid ei gwneud i ymdrin â'r broblem.

  Mae llygredd aer yn achosi hyd at 36,000 o farwolaethau bob blwyddyn yn y DU.Cydnabu Sefydliad Iechyd y Byd a Llywodraeth y DU mai llygredd aer oedd y risg fwyaf o'n blaenau heddiw o ran iechyd yr amgylchedd.

  Roedd yr Arweinydd yn falch iawn o groesawu Lee Waters AS, y dirprwy weinidog newydd ar gyfer y Newid Hinsawdd, i'r digwyddiad lle arddangoswyd peth o'r gwaith y

mae'r cyngor a'n partneriaid yn y sector cyhoeddus yn ei wneud i wella ansawdd yr aer yn y ddinas.

Roedd hyn yn cynnwys gosod paneli solar i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar 27 o'n hadeiladau, gan gynnwys y gosodiad mwyaf ar ben to yng Nghymru yn y felodrom ei hun.

Roedd yr arddangosfa hefyd yn cynnwys nifer o gerbydau trydan - yn eu plith roedd ein cerbyd casglu gwastraff trydan, y cyntaf o'i fath yng Nghymru, un o fysus trydan Trafnidiaeth Casnewydd, a thacsi trydan.

Mae llawer o waith i'w wneud er mwyn gwneud ein haer yn lanach er budd cenedlaethau'r dyfodol, ond mae llawer o waith da eisoes y digwydd ar draws Casnewydd, a byddai'r camau a gymerir heddiw yn creu dinas wyrddach ac iachach ar gyfer yfory.

- **Llwyddiant Mai Di Dor**

  Prosiect arall rydym wedi cymryd rhan ynddo'n ddiweddar a ganolbwyntiai ar gynaliadwyedd yng Nghasnewydd yw Mai Di Dor.

  Roedd yr ymgyrch yn annog unigolion, cynghorau a rhanddeiliaid i gefnogi gwenyn, gloÿnnod byw a mathau eraill o fywyd gwyllt drwy adael i flodau gwyllt dyfu ar lawntiau ac mewn mannau gwyrdd drwy gydol mis Mai yn lle eu torri.

  Gwnaethom addo cefnogi hyn er cydnabyddiaeth o'n statws fel Dinas sy'n Gyfeillgar â Gwenyn, ac yn unol â'n dyletswydd i wella natur a chymryd camau a fydd y helpu i wrthsefyll effeithiau'r newid hinsawdd.

  Roedd y penderfyniad i gefnogi'r ymgyrch hefyd yn dilyn treialon llwyddiannus o wahanol raglenni rheoli gwair, a chymysgeddau o wahanol hadau blodau wyllt yn ein safleoedd peilot 'gadael i dyfu' dynodedig.

  Fel canlyniad uniongyrchol i'r penderfyniad i leihau torri gwair, gwelsom enghreifftiau hyfryd, gan gynnwys tegeirian gwenynog, yn blodeuo ar ymylon ein ffyrdd.

  Byddem yn adolygu profiadau eleni ac yn dysgu yn eu sgil, ond roeddem yn llwyr fwriadu parhau i gefnogi cynlluniau o'r fath a oedd o fudd i'r amgylchedd ar draws ein dinas.

- **Generation rent**

  Ar y cyd â'r corff ymgyrchu Generation Rent, lansiwyd prosiect newydd gennym yn ddiweddar i ymgysylltu'n well â phobl sy'n rhentu eu cartrefi'n breifat.

  Er bod y rhan fwyaf o eiddo yn y ddinas mewn cyflwr da, roedd nifer o landlordiaid yn torri'r gyfraith drwy roi cartrefi ar osod a oedd yn is-na'r safon neu'n anaddas i fyw ynddynt.

  Roedd arolwg yn cael ei gynnal ar hyn o bryd er mwyn cael dealltwriaeth well o'r heriau o flaen rhentwyr preifat, a hefyd i ddarganfod yr hyn yr oeddent yn ei ddeall am eu hawliau.

  I ddechrau, byddem yn gofyn am safbwyntiau pobl a oedd yn byw yn wardiau Stow Hill, Fictoria, Pilgwenlli a Llyswyry, lle'r oedd niferoedd mawr o gartrefi rhent preifat.

  Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, byddai'r prosiect yn symud ymlaen i gam dau gan gynnal trafodaethau grŵp ffocws a fforymau â rhentwyr preifat.

  Anogodd yr Arweinydd y preswylwyr i gymryd rhan ac i rannu eu safbwyntiau drwy fynd i: https://www.newport.gov.uk/cy/Council-Democracy/Consultations/Consultations.aspx

- **Pythefnos gofal maeth ac wythnos Gofalwyr**

Yn ddiweddar, bu'r Cyngor yn dathlu pythefnos Gofal Maeth ac Wythnos Gofalwyr. I nodi'r ddau ddigwyddiad, cafwyd enghreifftiau gwych o fyfyrio a chyfathrebu ynghylch ymrwymiad anhygoel y grwpiau hyn o bobl.

Roedd tua 580 o ofalwyr di-dâl yn hysbys inni, ond yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd tua 16,500 o bobl yng Nghasnewydd yn dweud eu bod y gofalu am rywun.

Roeddent yn cynnwys gofalwyr ifanc a oedd yn helpu i ofalu am riant neu frawd/chwaer; rhieni sy' gofalu am blant ag anghenion ychwanegol neu gyflyrau difrifol; gofalwyr rhwng dwy genhedlaeth, a oedd yn ymrafael ag anghenion rhieni a phlant, ac unrhyw un a oedd yn gofalu am rywun na allai ymdopi heb help.

Roedd yr Arweinydd am achub ar y cyfle i annog gofalwyr i gysylltu er mwyn inni allu cynnig cymorth a chefnogaeth iddynt.

Dylid canmol hefyd y gofalwyr maeth, a oedd yn gwneud cymaint i gefnogi rhai o'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn ein dinas.

Yn anffodus, roedd angen rhagor o ofalwyr maeth o hyd yng Nghasnewydd, ac anogodd yr Arweinydd unrhyw un a oedd yn ystyried bod yn ofalwr maeth i gysylltu a chael rhagor o wybodaeth am brofiad a allai dalu ar ei ganfed.

- **Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE**
  Yn olaf, roedd yr Arweinydd am atgoffa'r aelodau eto mai'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog oedd diwedd y mis hwn.

  Roedd y Cyngor wedi clywed y byddai'r llywodraeth yn caniatáu rhai eithriadau i geisiadau hwyr, ond nid oeddem am i unrhyw un sy'n byw yn ein dinas wynebu unrhyw anawsterau'n aros, neu'n byw eu bywyd bob dydd, am iddynt gyflwyno eu cais yn hwyr.

  Roedd cefnogaeth ar gael, ac os gwyddai unrhyw un am unigolion yn y sefyllfa hon, gofynnodd yr Arweinydd i'r unigolion gysylltu, naill ai ar-lein neu drwy'r ganolfan gyswllt; roeddem yn gallu eu helpu.

**Cwestiynau i'r Arweinydd**

<u>Cynghorydd M Evans</u>

Cyfeiriodd y Cynghorydd Evans at ddatganiad yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden ym mis Chwefror pan soniwyd nad oedd y grŵp ceidwadol wedi cyflwyno cyllideb amgen ers cael ei ethol yn 2012. Dywedodd nad oedd hynny'n wir a bod cyllidebau amgen wedi'u costio'n llawn wedi'u cyflwyno hyd 2016/217. Gofynnodd y Cynghorydd Evans felly a oedd yr Arweinydd yn meddwl y dylai'r Aelod Cabinet ymddiheuro.

Dywedodd yr Arweinydd y bu'n ddiddorol nodi'r adborth gan yr aelodau yn ystod yr ymgynghoriad ar y gyllideb a'i bod yn bwysig clywed gan amrywiaeth o bobl. Pe bai cyllideb amgen wedi'i chyflwyno ar gyfer y gyllideb a bod tystiolaeth o hyn, yna byddai'r Arweinydd yn cydnabod hyn ac yn symud ymlaen.

<u>Cwestiwn Atodol</u>

Dywedodd y Cynghorydd M Evans ei fod yn tybio mai 'dylai' oedd yr ateb, a'i bod yn ymddiheuro. Aeth y cynghorydd ymlaen i sôn am hyrwyddo safonau uchel o ran ymddygiad, a chyfeirio at y ffaith bod y Cynghorydd Truman wedi ymddiheuro pryd bynnag y byddai'n anghywir ynghylch rhywbeth. . Diolchodd y Cynghorydd Evans i'r Arweinydd am ei hateb a gobeithiai y byddai'n derbyn ymddiheuriad llawn a chlir gan yr Aelod Cabinet.

Dywedodd yr Arweinydd y gallai'r Cynghorydd M Evans fod eisiau ailwrando ar recordiad o'i hateb i glywed yr hyn a ddwedwyd mewn gwirionedd y hytrach nag ail-lunio ymateb yr Arweinydd.

Cynghorydd K Whitehead

Roedd y Cynghorydd Whitehead wedi cyflwyno cynnig i roi Rhyddfraint y Ddinas ar ôl marwolaeth i David 'Bomber' Pearce i'r Cyn-arweinydd, y Farwnes Wilcox. Yn anffodus, ni fu hyn yn bosibl, ond roedd y Farwnes yn awyddus iawn i'r Cynghorydd Whitehead ymchwilio i Wobr Ysbryd Casnewydd. Fodd bynnag, ni fu unrhyw gynnydd yn gysylltiedig â hyn. Roedd menter Rocky yn dal i barhau a mabolgampwr ifanc wedi ennill cyllid. Gofynnodd y Cynghorydd Whitehead felly a ellid ailystyried y broses hon.

Canmolodd yr Arweinydd y gymuned am ddod ynghyd i godi cerflun o David 'Bomber' Pearce. Fodd bynnag, roedd gwobr Ysbryd Casnewydd wedi cael ei rhoi i'r naill ochr am y tro oherwydd Covid, ond byddai'r Arweinydd yn ymchwilio i hyn, ac i'r meini prawf, rywbryd ynn y dyfodol agos. Roedd yr Arweinydd yn awyddus canfod ffordd o gydnabod cyfraniad ystod o ddinasyddion, yn enwedig yn ystod y pandemig. Dylai mân weithredoedd caredig gael eu cydnabod hefyd. Pwysleisiodd yr Arweinydd nad oedd hyn wedi cael ei anghofio, a bod angen wedi codi am ryw fath o gydnabyddiaeth yn sgil y pandemig.

Cwestiwn Atodol

Yn sgil etifeddiaeth Rocky, soniodd y Cynghorydd Whitehead hefyd fod pobl wedi cefnogi'r digartref, felly gobeithiai y byddai David 'Bomber' Pearce yn derbyn cydnabyddiaeth.

Cynghorydd C Townsend

Gofynnodd y Cynghorydd Townsend a allai'r Arweinydd roi'r newyddion diweddaraf i'r Cyngor am sefyllfa Friars Walk.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn wynebu heriau yn ystod pandemig ac ar ôl hynny, a bod angen i'r Cyngor baratoi ar gyfer yr effaith economaidd. Un o'r heriau i Gasnewydd oedd bod y rhan fwyaf o'r eiddo yng nghanol y ddinas mewn perchnogaeth breifat. Ychydig o drafod a gawsom â pherchnogion Friars Walk ac roeddent yn ymchwilio i nifer o ffyrdd i adfywio Friars Walk, ac roedd nifer o unedau wedi'u gosod. Roedd trafodaethau parhaus yn cael eu cynnal, ond ni fyddai'n briodol datgelu gwybodaeth masnachol sensitif ar hyn o bryd yn y fforwm cyhoeddus hwn. Fodd bynnag, byddai diweddariad yn cael ei roi i'r cynghorwyr wrth i'r drafodaeth fynd rhagddi.

Cynghorydd T Holyoake

Gofynnodd y Cynghorydd Holyoake a allai'r Arweinydd roi'r newyddion diweddaraf i'r Cyngor am y strategaeth i adfer ar ôl Covid 19.

Dywedodd yr Arweinydd y bu'n bresennol yn un o gyfarfodydd diweddar y grŵp adfer strategol, ac roedd ymateb enfawr ar waith ar draws Gwent er mwyn symud tuag at adferiad. Roedd yna bedwar nod adfer strategol: 1) Cefnogi addysg a chyflogaeth a'r heriau a achoswyd gan Covid, fel colli busnesau a dysgwyr sy'n agored i niwed. 2) Yr amgylchedd. 3) Iechyd a llesiant dinasyddion a 4) Cefnogi dinasyddion ar ôl Covid 19. Roedd yr Arweinydd wedi cydweithio'n agos â'r ysgolion i'w helpu i ailagor yn ddiogel, ac yn parhau i weithio'n agos â nhw. O ganol mis Mehefin ymlaen, roedd pecynnau o brofion llif unffordd wedi cael eu darparu i'r staff yn yr ysgol, ac roedd hynny'n bwysig er mwyn adfer. Roedd tua 7,000 o ddyfeisiau digidol yn cael eu dosbarthu i'r ysgolion ac roedd elfen o ansicrwydd o hyd, er bod dysgu cyfunol yn parhau. Roedd y cyngor hefyd yn ymwybodol o'r angen i ddysgwyr gael mynediad i'r rhyngrwyd ac yn sicrhau bod disgyblion yn cael y mynediad hwnnw.

Roedd cyfleoedd gwaith hefyd yn flaenoriaeth - roedd y cydweithio rhwng yr Arweinydd a'r Celtic Manor yn un enghraifft o hyn. Roedd gan y gwesty nifer o swyddi gwag a byddai'n cysylltu'r rheiny â'n Hacademi Ieuenctid er mwyn helpu pobl i gael swyddi.

Roedd y Cabinet hefyd wedi cyflwyno nifer o geisiadau i'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol er mwyn helpu i adfer ar ôl Covid.

Roedd y Cyngor hefyd yn gallu parhau i ddosbarthu grantiau i fusnesau bach ac roedd yn rhaid canmol gwasanaethau rheoleiddio am eu gwaith.

Roedd yr Arweinydd hefyd wedi estyn gwahoddiad i gydweithwyr ddod i wylio'r Cabinet drwy'r Digwyddiad Byw, a fyddai'n cynnwys diweddariadau rheolaidd ynghylch adfer ar ôl Covid.

10. **Cwestiynau i Aelodau'r Cabinet**

Ceir pum cwestiwn ysgrifenedig i Aelodau'r Cabinet:

Cwestiwn 1 – Aelod Cabinet: Diwylliant a Hamdden

Cynghorydd C Ferris
Ac ystyried pwysigrwydd stiwardiaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol dros Dŷ Tredegar a'r gobaith y byddai hyn yn rhoi hwb i dwristiaeth yng Nghasnewydd, tybed pryd gawsoch chi eich cyfarfod diwethaf â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol?

Ymateb
Roedd y Brydles a gytunwyd gan y weinyddiaeth flaenorol yn rhwymo'r Cyngor i wneud taliadau parhaus a oedd yn ychwanegu pwysau ar gyllidebau o'r naill flwyddyn i'r nesaf. Roedd hi'n destun syndod, serch hynny, nad oedd y brydles yn cynnwys unrhyw ofynion ffurfiol i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gyfarfod â chynrychiolwyr o'r Cyngor.

Fodd bynnag, o dan fy nghyfarwyddyd i, mae'r baich ariannol hwn bellach wedi'i setlo ac mae'r Rheolwr Diwylliant a Dysgu Parhaus yn cyfarfod â rheolwyr yr eiddo i drafod datblygiadau arno, gwaith atgyweirio a chadwraeth, a marchnata. Bu'r Rheolwr Diwylliant a Dysgu Parhaus hefyd yn bresennol yn y gweithdai rheolaidd Tîm Tredegar a drefnwyd gan staff yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Nhŷ Tredegar. Rhoddir yr holl wybodaeth hon i mi yn ystod fy sesiynau briffio â'r swyddogion, a hyd at ddechrau'r pandemig roeddwn yn fodlon bod y trefniant stiwardiaeth yn cael ei reoli'n dda. Rwy’n siŵr eich bod yn llwyr ymwybodol o effaith y pandemig ar dwristiaeth ac ar allu atyniadau ymwelwyr i weithredu. Er hynny, mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi llwyddo i l lywio'i ffordd drwy gyfnod anodd iawn, ac rwy'n falch o ddweud bod modd cael mynediad bellach i rannau o'r tŷ yn ogystal â'r caffi, y parciau a'r gerddi drwy gydol yr wythnos, ac yr argymhellir bwcio ymlaen llaw ar gyfer y penwythnosau, gan ei fod yn lleoliad mor boblogaidd.

Cwestiwn Atodol
Ac ystyried pwysigrwydd hyn, ac er bod y pandemig wedi cael effaith, a fyddai cyfle i gyfarfod rhyw bryd yn y dyfodol.

Diolchodd y Cynghorydd Harvey i'r Cynghorydd Ferris am ei gwestiwn atodol a chyfeirio at ei hymateb blaenorol.

Cwestiwn 2 – Aelod Cabinet: Hamdden a Diwylliant

Cynghorydd M Evans

Ers mis Awst 2017 dim ond 4 penderfyniad ffurfiol rydych chi wedi'u gwneud yn ôl gwefan y Cyngor, dim ond un bob blwyddyn. Er fy mod yn gwerthfawrogi eich bod wedi bod yn ymwneud â chyllid y Bont Gludo yr ydym yn ei chefnogi'n llwyr, a'r Ganolfan Hamdden newydd arfaethedig, allwch chi ddweud wrth y Cyngor pam nad ydych wedi gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch y Llong Ganoloesol, er enghraifft, a pham na wnaethoch ymgynghori â'r aelodau wrth benderfynu cyflwyno cynllun Pŵer Pedal?

Allwch chi hefyd roi'r newyddion diweddaraf i'r Cyngor am y cynllun hwn?

<u>Ymateb</u>
Mae proses sychrewi'r Llong Ganoloesol yn dal heb ei chwblhau. Effeithiwyd yn sylweddol ar hyn yn sgil y pandemig. Fel y byddwch yn gwerthfawrogi, mae'n rhy fuan cynnig cam nesaf y prosiect nes bo'r broses hon wedi'i chwblhau. Rydych chi'n llygad eich lle fy mod wedi canolbwyntio fy ymdrechion ar y Bont Gludo, ac rwyf wedi cymryd rhan yn uniongyrchol mewn trafodaethau a chyfarfodydd i gefnogi a hyrwyddo'r prosiect. Roedd adroddiad y Cabinet ym mis Chwefror yn manylu ar y gwaith a'r ymrwymiad i gwblhau'r prosiect hwn, er mwyn cael dros £8m o Gronfa Dreftadaeth y Loteri ac £1.5m oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Mae eich gwybodaeth am nifer y penderfyniadau rwyf wedi'u gwneud fel Aelod Cabinet yn anghywir. Nid ydych wedi cynnwys y penderfyniadau a wnes yn rhan o adroddiad ar y cyd. Bu nifer o benderfyniadau ar y cyd ers mis Awst 2017, gan gynnwys cymeradwyo Marathon Cymru Casnewydd. Nid ydym yn gweithio mewn seilos Gynghorydd Evans.

O ran y cynllun pŵer pedal, tybiaf eich bod eisoes yn ymwybodol bod y defnydd o gyllid Adran 106 i ddibenion hamdden yn cael ei reoli o dan gynllun dirprwyo'r Cyngor. Mae manteision y prosiect yn glir ac yn galluogi pobl â lefelau amrywiol o symudedd, aelodau'r teulu a gofalwyr i gymryd rhan mewn gweithgaredd hamdden gyda'i gilydd'.

Mae'r prosiect yn cael ei gyflwyno gan Ymddiriedolaeth Hamdden Casnewydd Fyw o dan y brand 'Olwynion i Bawb'. Bydd modd archebu beiciau a slotiau amser penodol drwy wefan ac ap Casnewydd Fyw. Mae caban beiciau ac offer wedi ei ddarparu ym Mharc Tredegar, ynghyd â'r system ddiogelwch angenrheidiol a theledu cylch cyfyng. Mae teclynnau codi a chyfarpar arall wedi'u darparu yn y toiledau cyhoeddus anabl cyfagos i helpu pobl sy'n defnyddio'r cynllun, ac mae gwaith gwella wedi'i gwblhau i uwchraddio'r llwybrau drwy'r parc fel eu bod yn addas i bobl sy'n defnyddio'r cynllun ochr yn ochr â beicwyr a cherddwyr eraill. Mae staff Casnewydd Fyw wedi derbyn hyfforddiant arbenigol ar ddefnyddio'r beiciau a'r addasiadau, ac fe gafwyd arddangosfa o'r ystod lawn o feiciau a fydd ar gael i'w llogi ar 9 Mehefin ym Mharc Tredegar. Cyn gynted ag y bo'r cyfyngiadau clo llawn wedi'u llacio a'r cyfleuster archebu'n fyw bydd y cynllun rhagorol hwn ar gael yn rhad ac am ddim i breswylwyr Casnewydd.

<u>Cwestiwn Atodol</u>
Gwnaed penderfyniad ynghylch y Llong Ganoloesol ym mis Hydref 2014. Yn ogystal â hynny, ym mis Chwefror 2019 roedd cynigion yn cael eu datblygu ar gyfer Parc Tredegar a byddai'r opsiynau'n cael eu cyflwyno gerbron y Cabinet cyn hir. Soniodd y Cynghorydd Evans fod y Cynghorydd Harvey wedi dweud nad oedd wedi ymweld â Pharc Tredegar ers iddi fod yn Aelod Cabinet. Gan hynny, beth oedd y dystiolaeth o waith craffu i weld a oedd grantiau ar gael, a sut y gwnaed y penderfyniad - ai penderfyniad anffurfiol ydoedd? Roedd y Cynghorydd Evans o'r farn fod llawer o gwestiynau heb eu hateb a gofynnodd am dystiolaeth o hyn gan yr Aelod Cabinet.

Dywedodd y Cynghorydd Harvey, gan fod mwy nag un cwestiwn atodol, y byddai'n rhoi ymateb ysgrifenedig i'r Cynghorydd Evans.

<u>Cwestiwn 3 – Dirprwy Arweinydd/Aelod Cabinet: Gwasanaethau'r Ddinas</u>

<u>Cynghorydd W Routley</u>

Gyda thagfeydd ar yr M4 o Fagwyr i dwneli Brynglas y rhan fwyaf o’r penwythnosau a'r gwyliau banc, a wnaiff yr Aelod Cabinet roi gwybod inni pa gynlluniau sydd ganddo i leihau'r baich gormodol ar lwybrau amgen?

Ymateb
Bydd penderfyniad diweddar Llywodraeth Cymru i gyflwyno terfyn cyflymder 50mya ar yr M4 drwy Gasnewydd yn gwella ansawdd yr aer ac yn lleihau tagfeydd, drwy ddefnyddio camerâu cyfartaledd cyflymder i gyfyngu ar gyflymder traffig, rhwyddhau llif y traffig a gwella amseroedd teithio.

Nod gostwng y cyflymder yw lleihau nifer a difrifoldeb y gwrthdrawiadau ar hyd coridor yr M4, sydd yn y gorffennol wedi amharu ar amseroedd teithio ar rwydwaith priffyrdd y ddinas wrth i yrwyr sy'n cael eu gwyro chwilio am lwybrau amgen.

Mae'r Cyngor wedi croesawu argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru (Burns), a oedd y ngosod ystod o opsiynau trafnidiaeth amgen uchelgeisiol ond cyflawnadwy i'r ddinas a'r rhanbarth, er mwyn lleihau tagfeydd ar yr M4.

Mae swyddogion y Cyngor yn parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i gyflawni'r cynigion hyn er budd y Ddinas.

Cwestiwn Atodol
Roedd Ffordd Magwyr yn cael ei hadnabod fel ffordd liniaru'r M4, ac roedd y newidiadau mewn cyflymder wedi achosi sawl damwain agos.  A allai'r Dirprwy Arweinydd a'r swyddogion ymchwilio i hyn er mwyn helpu i arafu cerbydau ar y ffyrdd.

Atebodd y Cynghorydd Jeavons drwy ddweud y byddai'n hapus i gwrdd â'r Cynghorydd Routley, ynghyd â swyddogion a'r Heddlu i drafod hynny.

Cwestiwn 4 – Dirprwy Arweinydd/Aelod Cabinet: Gwasanaethau'r Ddinas

Cynghorydd R Mogford
Mae astudiaethau gwyddonol yn dangos yr effaith wirioneddol ddinistriol a ragwelir yn sgil y newid hinsawdd ar Gymru dros y genhedlaeth nesaf neu ddwy.

Yn ddiweddar, mae llawer o breswylwyr drwy holl ardaloedd isel Casnewydd wedi cael profiad uniongyrchol o lifogydd eithafol.

A all yr aelod Cabinet roi'r newyddion diweddaraf i'r Cyngor ynghylch:-

i) Pa wersi sy'n cael eu dysgu yn sgil y digwyddiad llifogydd diwethaf ym mis Rhagfyr 2020, a pha atebion sy'n cael eu gweithredu o ganlyniad i hynny.
ii) Pa gamau pellach, os o gwbl, sy'n cael eu cymryd i leihau'r risg o lifogydd difrifol yng Nghasnewydd, yn y tymor canolig a'r tymor hir?
iii) Pa adnoddau ariannol newydd y mae'r Aelod Cabinet yn disgwyl iddynt fod ar gael er mwyn helpu i gefnogi mesurau atal llifogydd o hyn allan.

Ymateb
Fel y dywedais yn gynharach eleni Gyng Mogford, fel llawer o ardaloedd eraill ledled Cymru a'r DU, cafwyd glaw sydyn a thrwm yng Nghasnewydd, ac achosion o lifogydd, fis Rhagfyr diwethaf. Mae digwyddiadau llifogydd o'r fath yn destun ymchwiliad adran 19, ac mae'r rhai sy'n gysylltiedig â'r digwyddiadau diweddar yng Nghasnewydd wedi dechrau, a bydd y canfyddiadau'n cael eu rhannu â'r cyhoedd cyn hir. Mae ymchwiliadau o'r fath yn cynnwys pob corff perthnasol, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, y Cyngor a Dŵr Cymru, a hyd nes y bo'r gwaith hwnnw wedi'i gwblhau, ni allaf wneud unrhyw sylwadau pellach.

O ran y gwaith sydd wedi'i gynllunio, mae rhaglen y Cyngor wedi'i nodi yn y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd, y cynhaliwyd ymgynghoriad arno â'r Aelodau, ond caiff y rhan fwyaf o'r gwaith graddfa fawr i amddiffyn rhag llifogydd ei gyflawni gan CNC.

Cwestiwn Atodol
O ran adroddiad Adran 19, roedd y Cynghorydd wedi gofyn mor bell yn ôl â mis Rhagfyr, a allai'r Dirprwy Arweinydd ddweud pryd y byddai'r adroddiad ar gael.

Ni allai'r Cynghorydd Jeavons roi dyddiad ond byddai'n rhoi gwybod i'r Cynghorydd Mogford pan fyddai ar gael i'r cyhoedd.

Cwestiwn 5 – Aelod Cabinet: Trwyddedu a Rheoleiddio

Cynghorydd W Routley
Tybed a all yr aelod Cabinet hysbysu'r Cyngor pa gynlluniau sydd ar waith i fonitro ansawdd yr aer mewn cymunedau sy'n byw'n gyfagos â choridor yr M4?

Ymateb
Fel y gwyddoch, mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi datgan 11 o Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA), y mae 5 ohonynt yn uniongyrchol gysylltiedig â llygredd aer o draffordd yr M4. Mae'r rhain wedi'u gwasgaru ar hyd y darn o'r M4 sydd o fewn ffin Casnewydd, gyda 2 i'r Dwyrain o Afon Wysg a 3 i'r Gorllewin. Cyhoeddwyd yr holl Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer flynyddoedd yn ôl oherwydd bod lefelau'r allyriadau Nitrogen Deuocsid yn uwch na'r Amcanion Ansawdd Aer a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i baratoi a gweithredu Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer i fynd i'r afael â'r materion ansawdd aer hyn. Mae'r Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer yn cael ei ailwampio a'i ddiweddaru ar hyn o bryd i gyd-fynd â Chynllun Teithio Cynaliadwy'r Cyngor, gan fod ansawdd aer, Newid yr Hinsawdd a Lleihau Carbon i gyd yn rhan o'r un

agenda. Yn y cyfamser, bydd Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn parhau i fonitro allyriadau ansawdd aer yn agos yn yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ac yn y lleoliadau ar hyd coridor yr M4 lle nodwyd problemau.

Mae gennym 77 o diwbiau monitro ar draws pob un o'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, sy'n monitro lefelau allyriadau yn barhaus. Yn ogystal â hynny, rydym wedi sicrhau cyllid grant SEWTA ychwanegol i brynu 3 synhwyrydd a fydd yn darparu data amser real yn ogystal â lefelau gronynnau, sy'n fwy treiddiol nag allyriadau CO2 ac NO2.

Cafodd cyfyngiadau teithio Covid-19, a'r gostyngiad mawr yn nifer y teithiau mewn car ar yr M4, gryn effaith ar ddata monitro'r 12 mis diwethaf, gyda llawer o bobl yn gweithio gartref. Mae'r data dibynadwy diwethaf felly'n dyddio o 2019, ond hyd yn oed wedyn, roedd y data monitro yn galonogol iawn, ac yn dangos bod lefelau uwch na'r trothwy yn tueddu i ostwng o gymharu â'r blynyddoedd cynt. Mae hyn yn dangos ein bod yn gwneud cynnydd i leihau allyriadau a gwella ansawdd yr aer. Ym mis Rhagfyr 2019, roedd ansawdd aer ym mhob ARhAA wrth ymyl cyffyrdd yr M4 yn mynd i'r cyfeiriad iawn. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y dylid diddymu ARhAA Sain Silian sy'n ffinio â'r M4 gan nad yw'r Amcanion Ansawdd Aer wedi'u torri yno ers blynyddoedd. Bydd yr ARhAA hon yn cael ei dirymu'n ddiweddarach yn 2021. Rydym hefyd yn gweld gostyngiad graddol mewn lefelau allyriadau yn yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer sy'n weddill wrth ymyl cyffyrdd y draffordd, ac maent yn symud tuag at lefelau cydymffurfio. Fodd bynnag, nid yw'n bosib rhoi unrhyw amserlen union ar gyfer cydymffurfio, oherwydd ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o'r mesurau lliniaru'n gysylltiedig â'r M4 yn faterion i Lywodraeth Cymru.

Cwestiwn Atodol

Ym Materion Casnewydd cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at ddyletswydd gofal i'r amgylchedd yng Nghasnewydd a'r newid hinsawdd. Bu'r Aelod Cabinet yn dathlu Diwrnod Aer Glân, lle cydnabuwyd bod 36,000 o farwolaethau yn deillio o lygredd, sy'n nifer ddifrifol. Roedd Cymru wedi datgan argyfwng hinsawdd, a oedd yn cynnwys Casnewydd. Aeth y Cynghorydd Routley yn ei flaen i ddweud bod un o bob 22 o farwolaethau yng Nghasnewydd yn gysylltiedig ag ansawdd aer. Yn 2017, bu 113 o farwolaethau'n gysylltiedig â llygredd aer yng Nghasnewydd. Nid y ffaith nad oedd traffig yn teithio ar 50mya oedd y broblem gyda'r M4, ond y tagfeydd a oedd yn llygru'r aer. Roedd gyrwyr yn chwilio am lwybrau eraill, yn lle'r A48 a'r M4.

Dywedodd y Maer fod yr amser ar ben ac y byddai'r Aelod Cabinet yn ymateb yn ysgrifenedig.

Cwestiwn 6 – Aelod Cabinet: Addysg a Sgiliau

Cynghorydd R Mogford

Cyn y pandemig, roedd Ysgol Gyfun Sain Silian Casnewydd ac Ysgol Uwchradd Casnewydd yn destun 'mesurau arbennig'. A all yr Aelod Cabinet Addysg roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwelliannau i'r ysgolion hyn, a phryd mae'r 'mesurau arbennig' yn debygol o ddod i ben.

Ymateb

Yn y cyfnod a oedd yn arwain at y pandemig, roedd cyrff llywodraethol y ddwy ysgol wedi llwyddo i benodi penaethiaid newydd, a dechreuodd y naill a'r llall eu swyddi yn ystod y pandemig. Rwy'n cymeradwyo'r ffordd y mae'r ddau bennaeth wedi ymateb i'r her o gychwyn eu rolau mewn cyfnod mor anarferol.

Mae'r ddau bennaeth a'u cyrff llywodraethol wedi ymgysylltu'n llawn â'r Gwasanaethau Addysg, y GCA ac Estyn dros gyfnod y pandemig er mwyn ymateb i argymhellion eu harolygiadau, ochr yn ochr ag addasu'r ddarpariaeth i ddysgwyr, sy'n cynnwys datblygu

dysgu cyfunol a darparu gofal plant i ddysgwyr sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol.

Pan ddechreuodd y pandemig gohiriodd Estyn yr holl arolygiadau a gweithgarwch monitro a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer yr ysgolion mewn categori statudol. Fodd bynnag, mae Estyn wedi parhau i weithio gydag Ysgol Sain Silian ac Ysgol Uwchradd Casnewydd i'w cefnogi, ac ailgydiwyd yn y gweithgarwch monitro ffurfiol ar gyfer rhai ysgolion yn ystod haf 2021.

Mae Ysgol Uwchradd Casnewydd ac Ysgol Sain Silian yn cymryd rhan mewn rhaglen aml-asiantaeth Genedlaethol newydd a ddechreuwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu ysgolion ledled Cymru sydd mewn categori Estyn statudol i wneud y gwelliannau angenrheidiol. Mae'r Gwasanaethau Addysg, Estyn, Llywodraeth Cymru a'r ysgolion unigol yn gweithio mewn modd cydlynol i sicrhau bod ysgolion yn symud allan o gategori statudol cyn gynted â phosibl.

Dim ond Estyn sy'n gallu pennu a ddylid tynnu ysgol o gategori mesurau arbennig, ac ni fyddai'n briodol i'r Awdurdod Lleol awgrymu llinell amser ar gyfer hyn.

Fodd bynnag, mae'r Gwasanaethau Addysg a'r GCA o'r un farn ag Estyn, sef bod y ddwy ysgol yn gwneud cynnydd, ac yn cefnogi cyfeiriad yr arweinyddiaeth a hwylusir gan gyrff llywodraethol a phenaethiaid y ddwy ysgol.

Cwestiwn Atodol
Roedd hi'n braf clywed bod dau bennaeth newydd, ac o edrych ar y dudalen we, roedd y Cynghorydd Davies yn gadeirydd y Llywodraethwyr ond hefyd yn Aelod Cabinet. A allai'r Cynghorydd Davies felly gadarnhau pa mor hir y bu hi'n llywodraethwr ac a oedd yn dal i fod yn Gadeirydd.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Davies ei bod wedi bod yn llywodraethwr yn Sain Silian ers 2014, ac yn Is-gadeirydd yn 2016 am ddwy flynedd, a'i bod wedi aros yn Gadeirydd y Llywodraethwyr am ddwy flynedd. Roedd yr ysgol yn destun mesurau arbennig, a byddai rhoi'r gorau i fod yn llywodraethwr a newid i'r arweinyddiaeth yn ystod y broses hon yn achosi aflonyddwch. Roedd ESTYN yn ymwybodol bod y Cynghorydd Davies yn aelod Cabinet ond hefyd o'r farn na fyddai'n briodol rhoi'r gorau i'w swydd ar hyn o bryd, ond pe bai unrhyw achos o wrthdaro buddiannau yn codi, byddai'r Cynghorydd Davies yn gofyn i'r Is-gadeirydd ddirprwyo ar ei rhan.

Cwestiwn 7 – Aelod Cabinet: Datblygu Cynaliadwy

Cynghorydd C Townsend
Bydd r Aelod Cabinet yn ymwybodol o'r anawsterau y mae ceisiadau cynllunio HMO yn eu hachosi i breswylwyr a busnesau cyfagos.

Mae CCA y Cyngor ei hun ar HMOs yn cyfeirio at effeithiau andwyol ar gydlyniant/amwynder cymunedau, mannau parcio a landlordiaid y mae'n amhosib cael gafael arnynt.

Ac ystyried yr anawsterau y mae Cyngor Dinas Casnewydd yn eu cael gyda'r Arolygwyr Cynllunio yn gysylltiedig ag apeliadau HMO, a wnaiff yr aelod Cabinet gychwyn adolygiad o'r CCA - a ddiweddarwyd ddiwethaf yn 2017 - gyda golwg ar gryfhau hawliau preswylwyr a busnesau lleol.

Ymateb
Cydnabyddir y gall ceisiadau cynllunio ar gyfer HMOs yn aml fod yn gynhennus. Yn wir, gall HMOs wedi'u rheoli'n wael a llawer ohonynt wedi'u lleoli gyda'i gilydd achosi problemau sy'n effeithio ar breswylwyr lleol, ac yn aml y tenantiaid eu hunain. Fodd bynnag, rhaid inni gofio hefyd y gall HMOs a reolir yn dda integreiddio'n dda i'r gymuned leol, a byddant yn aml yn

cynnig cyfleoedd tai i amrywiaeth o bobl, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol ifanc. Mae'n rhaid gofalu felly ein bod yn edrych at bob achos yn unigol yn lle rhuthro i feirniadu.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn dilyn polisi a chanllawiau cenedlaethol. Cafodd y rhan fwyaf o HMOs a wrthodwyd yn ddiweddar yng Nghasnewydd eu gwrthod oherwydd diffyg mannau parcio. Ar raddfa genedlaethol, mae ein golygon yn troi fwyfwy at drafnidiaeth gynaliadwy - cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r car preifat ar waelod yr hierarchaeth trafnidiaeth. Gan hynny, wrth benderfynu gwrthod ceisiadau ar sail diffyg mannau parcio, rhaid i'r rhesymau am hynny fod yn drwyadl a chadarn, a rhaid gallu dangos pam nad yw'r datblygiadau mewn mannau hygyrch a chynaliadwy. Os na cheir rhesymau o'r fath, mae Arolygwyr Cynllunio yn caniatáu apeliadau. Yn ddiweddar cynhaliodd y Prif Arolygydd Cynllunio sesiwn adborth â'r Pwyllgor Cynllunio ar yr union destun hwn.

Rwy'n gyfarwydd â phryderon yr aelodau a'r problemau y gall HMOs eu hachosi. Fodd bynnag, rwyf o'r farn na fydd diweddaru Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA), neu CCA newydd yn datrys y broblem. Canllawiau yn unig yw CCA. Maent yn rhoi arweiniad ychwanegol ar y prif bolisi neu bolisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mewn perthynas â'r CCA presennol ar gyfer HMOs, nid yw Polisi H8 y CDLl ond yn caniatáu HMOs yn yr amgylchiadau canlynol:

- Os nad yw maint a dwysedd y defnydd yn niweidio cymeriad yr adeilad a'r lleoliad ac na fydd yn achosi gostyngiad annerbyniol yn amwynder meddianwyr cyfagos nac yn arwain at achosi problemau parcio ar y stryd.
- Nad yw'r cynnig yn creu gorddwysedd o HMOs mewn unrhyw ardal benodol.
- Bod mesurau inswleiddio sŵn digonol ac amwynder digonol i feddianwyr yn y dyfodol.

Bydd y Cynghorydd Townsend yn ymwybodol bod y Cyngor wedi cymeradwyo adolygiad y CDLl yn ddiweddar. Byddai'n llawer mwy effeithiol inni adolygu polisi H8 yn hytrach na llunio rhagor o ganllawiau. Bydd angen i unrhyw bolisi newydd ar gyfer HMOs gael ei archwilio gan Arolygydd a benodir gan Lywodraeth Cymru, felly bydd angen i'r dystiolaeth i gefnogi unrhyw bolisi newydd fod yn gadarn. Byddwn yn ymgysylltu â phartneriaid fel Heddlu Gwent ac yn adolygu cwynion a wneir i wasanaethau eraill y Cyngor i gasglu tystiolaeth o'r fath. Mae ymgynghori â phreswylwyr, Aelodau a rhanddeiliaid wrth galon proses adolygu'r CDLl, ac mae croeso i'r Cynghorydd Townsend gymryd rhan yn adolygiad y polisi HMO.

## 11. Cofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd: 29 Ebrill 2021

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 29 Ebrill a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Mai
gerbron y Cyngor i'w nodi.

Ond roedd argymhellion wedi'u cyflwyno gan y naill Bwyllgor a'r llall i'r Cyngor gytuno ar y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad yn sgil diwygio enw, cylch gorchwyl ac aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cynigiodd y Maer yr argymhellion hyn o'r Gadair ac fe'u heiliwyd yn briodol.

**Cytunwyd:**
Cymeradwyo a mabwysiadu argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch y newidiadau arfaethedig i enw, cylch gorchwyl ac aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac y dylid gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

## 12. Cofnodion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: 27 Mai 2021

Fel y cytunwyd yn eitem 11 (uchod).

The meeting terminated at Time Not Specified